# Awdurdod Parc Cenedlaethol
## 24 Mehefin 2026

**Yn bresennol (yn bersonol)**
Dr M Havard (Cadeirydd)
Miss F Day, y Cynghorydd T Evans, y Cynghorydd C George, Ms H Gwenllian, y Cynghorydd SL Hancock MBE, Mr GA Jones, y Cynghorydd C Williams BEM a'r Cynghorydd M Williams.

**Yn bresennol (o bell)**
Y Cynghorydd M Bowen, y Cynghorydd D Clements, Mr J Hogg, Mrs S Hoss, y Cynghorydd M James, y Cynghorydd B Price, Y Cynghorydd A Tinley, a'r Cynghorydd V Thomas.

**Hefyd yn bresennol:**
Phil Barlow (Swyddog Ymchwil ac Arfarnu Cynaliadwyedd), Lynwen Davies (Cyfieithydd ar y Pryd), Emma Gladstone (Rheolwr Polisi Strategol), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Mike Kent (Swyddog Monitro), Gayle Lister (Prif Swyddog Cynllunio – Polisi Strategol), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), a Sara Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu).

[Ystafell y Preseli, Parc Llanion, Doc Penfro ac Ar-lein, 10.15am – 12.30pm]

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall.

**2. Datgan Buddiannau**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mai 2026 i’w cadarnhau a’u dilysu.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd C George, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mai 2026.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

O ran cam gweithredu 1107, sef gwahodd Cyfeillion Arfordir Penfro i wneud cyflwyniad ar eu gwaith, dywedodd y Cadeirydd ei bod hi a Phrif Weithredwr yr Awdurdod wedi trefnu i gyfarfod â'r Grŵp fis Awst ac y byddai'n codi'r mater bryd hynny.

**Nodwyd.**

## 5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu'r digwyddiadau neu’r cyfarfodydd canlynol yn ystod y mis diwethaf:

- Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol y Cyd-bwyllgor Corfforaethol lle penodwyd y Cynghorwyr R Stewart ac R Hunt yn Gadeirydd ac yn Is-gadeirydd, yn y drefn honno, a chafodd y cynnig i ailgyfansoddi'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol ei gymeradwyo.
- Digwyddiad a gynhaliwyd i gyflwyno gwybodaeth am yr Awdurdod i ddarpar Aelodau posibl yn y dyfodol.
- Panel Asesu Ffermio Bro lle cytunwyd ar y system sgorio ar gyfer y cynllun.
- Taith Astudio yr Aelodau i Nanhyfer lle cynhaliodd Swyddogion yr Awdurdod arddangosfa drôn, a thrafodwyd archaeoleg, dehongli a gwaith cadwraeth ar Gastell Nanhyfer.
- Dadorchuddio Cadair yr Eisteddfod Genedlaethol 2026, a gomisiynwyd gan yr Awdurdod, a gorymdaith yr Arglwydd Rhys fel rhan o ddathliadau 850 o flynyddoedd ers cynnal yr eisteddfod genedlaethol gyntaf erioed.

Dywedodd y Cadeirydd bod Tîm Rheoli Datblygu yr Awdurdod wedi cael ei gydnabod yn ystod Gwobrau RTPI Cymru am Ragoriaeth Cynllunio 2026 yn ddiweddar, ar ôl i Gam 2 o’r Prosiect Ailddatblygu Harbwr Saundersfoot gael ei enwi fel y prosiect gorau. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu bod y prosiect wedi cael ei ganmol gan y beirniaid fel 'enghraifft o gadernid economaidd arfordirol mewn aneddiadau llai' ac 'yn enghraifft dda iawn o gynllunio sy'n galluogi adfywio sy'n seiliedig ar leoedd'. Diolchodd y Cyfarwyddwr i Andrew Richards (Uwch Gynllunydd), Nicola Gandy (Cyn Gyfarwyddwr Cynllunio) ac i Gomisiwn Harbwr Saundersfoot am eu cyfraniadau at waith y prosiect. Dywedwyd bod Canllawiau Awyr Dywyll Cymru, a ddatblygwyd gan weithgor o bob cwr o Gymru, gan gynnwys y Prif Swyddog Cynllunio (Polisi Strategol) Gayle Lister, hefyd wedi ennill Gwobr y Cadeirydd yng Ngwobrau RTPI Cymru am Ragoriaeth Cynllunio 2026.

O ran cyfarfodydd allanol, dywedodd y Dirprwy Gadeirydd ei bod wedi mynychu Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru lle penodwyd y Cynghorydd Anthony Hunt yn Arweinydd.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiadau cyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 22/04/2026 i'r Aelodau eu hystyried.

**Penderfynwyd** derbyn cofnodion y Pwyllgor uchod.

**7. Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) 3**

Cyflwynodd y Rheolwr Polisi Strategol yr Adroddiad Ymgynghori ar y dogfennau CDLl 3 oedd yn cynnwys yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan ymgorffori Adroddiad Cwmpasu'r Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Papur Drafft ar y Materion, y Weledigaeth a'r Amcanion. Dywedwyd bod y Swyddogion wedi cynnal ymgynghoriad ar y dogfennau uchod ar gyfer y CDLl 3 newydd am gyfnod o wyth wythnos. Eglurodd y swyddogion bod gwelliannau wedi'u gwneud i'r dogfennau i gymryd y sylwadau a dderbyniwyd i ystyriaeth, lle bo'n briodol.

Cafwyd trafodaeth i ddilyn ynghylch pwysigrwydd diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg â chysylltiad â thai fforddiadwy i gynnig cyfle i unigolion aros yn eu cymunedau. Roedd y CDLl yn cael ei gydnabod fel dogfen allweddol allai fod o gymorth i'r Awdurdod fynd i'r afael â'r materion hyn, a thynnodd y Rheolwr Polisi Strategol sylw at y ffaith bod y materion hyn wedi'u nodi yn yr Adroddiad Cwmpasu. Eglurwyd, fel rhan o'r cam nesaf, y byddai'r tîm yn datblygu sawl opsiwn strategaeth i gyd-fynd â'r materion allweddol a glustnodwyd, ac y byddai'r opsiynau hyn yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau i'w hystyried mewn gweithdy yn y dyfodol.

Nodwyd, er gwaethaf pob ymdrech, mai dim ond un ar ddeg o ymatebion i'r ymgynghoriad oedd wedi dod i law, a gofynnodd yr Aelodau sut y gellid gwella ar hyn yn y dyfodol. Cadarnhaodd y swyddogion bod y diffyg ymgysylltu â'r ymgynghori yn her allweddol, ac y byddai adnoddau pellach yn cael eu buddsoddi yn y cam nesaf gyda sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb ychwanegol ar gael. Ychwanegwyd, yn amodol ar yr adnoddau fydd ar gael, y byddai'r tîm yn ymdrechu i ddatblygu dogfen sy'n fwy deniadol, a bod recordiad ar gael ar-lein i sicrhau bod yr ymgynghoriad mor hygyrch â phosibl.

O ran cadwraeth, gofynnodd y Cadeirydd a fyddai dogfennau'r CDLl3 yn cyfeirio at safleoedd dynodedig ar gyfer cadwraeth byd natur. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog bod gwaith ar y gweill gan Swyddogion i sefydlu pa safleoedd y dylid eu dynodi'n seilwaith gwyrdd strategol, ac unwaith y byddant wedi'u sefydlu, y byddent yn cael eu cynnwys yn y CDLl3.

**Nodwyd.**

**8. Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2025/26**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2025/26 oedd yn rhoi trosolwg o drefniadau'r Awdurdod ar lywodraethu gan gynnwys ystyried ble oedd angen gwella'r prosesau a'r materion llywodraethu. Dywedwyd bod y datganiad llywodraethu yn rhoi tryloywder ac yn rhoi sicrwydd bod yr Awdurdod wedi ymrwymo i wella'n barhaus y modd y mae'n gweithredu.

O dan yr adran o'r enw 'Sut mae'r Awdurdod yn Dangos ei egwyddorion craidd o lywodraethu da', nodwyd bod y Tîm Ymgysylltu a Chynhwysiant wedi cynnal Ymarferiad Mapio Rhanddeiliaid yn 2024/25, a gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth ynghylch hyn. Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at y ffaith bod y data mapio rhanddeiliaid wedi'i rannu â'r Aelodau mewn Pwyllgor Adolygu Gweithredol yn flaenorol, fodd bynnag, cytunodd i ailddosbarthu'r wybodaeth hon.

Dywedwyd bod Cynllun Gweithredu ar Wella Llywodraethu wedi'i gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a gofynnodd Aelod a fyddai'r Awdurdod yn gallu cwblhau'r holl gamau gweithredu dan sylw o fewn y dyddiadau targed a osodwyd. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr, er bod yr Awdurdod yn ymdrechu i gwblhau pob cam gweithredu o fewn y dyddiad targed a osodwyd, bod nifer o ffactorau allanol oedd yn effeithio ar allu'r Awdurdod i gwblhau'r camau gweithredu.

Ar gynnig y Cynghorydd SL Hancock, a eiliwyd gan Dr M Havard, **penderfynwyd** cytuno ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2025/26 gyda chymeradwyaeth ddirprwyedig yn cael ei rhoi i'r Swyddogion pe bai angen unrhyw fân ddiweddariadau pellach.

## 9. Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg i'w gymeradwyo gan yr Aelodau cyn ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg. Eglurodd y Swyddog ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu Adroddiad Blynyddol erbyn y 30ain o Fehefin bob blwyddyn yn unol â'r Safonau 158, 164 a 170 o'r Hysbysiad Cydymffurfio. Roedd yr adroddiad yn grynodeb o waith yr Awdurdod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn flaenorol, gan gynnwys manylion ynglŷn â phob un o'r grwpiau o safonau, yn ogystal â thynnu sylw at y materion a gododd yn ystod y cyfnod adrodd, a nodi rhai camau gweithredu i'w cymryd yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Tynnodd y Swyddog sylw at y ffaith bod rhai o'r ffigurau oedd yn y fersiwn Gymraeg o'r adroddiad yn anghywir, ond bod y rhain wedi'u cywiro ers hynny.

Hefyd tynnodd y Swyddog sylw at y ffaith nad oedd rhai Aelodau wedi cwblhau’r arolwg eto sy’n nodi eu sgiliau iaith Gymraeg, a nodwyd hyn gan yr Aelodau fel mater i weithredu arno.

O ran y materion oedd wedi codi yn ystod y cyfnod adrodd, dywedwyd bod yr Awdurdod wedi bod yn destun ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â chwyn bod yr Awdurdod wedi methu â chydymffurfio â Safonau 36, 81 a 52 oedd yn ymwneud â thaith gerdded. Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, roedd y Prif Weithredwr wedi cyflwyno gwybodaeth bellach ynghylch natur y gŵyn a hynt yr ymchwiliad. Ychwanegwyd bod yr Awdurdod wedi herio diffiniad y Safon gan fod Swyddogion o'r farn bod y Safon yn afresymol yng nghyd-destun digwyddiadau yn yr awyr agored. Cadarnhawyd, yn dilyn trafodaeth bellach gyda'r Comisiynydd a thystiolaeth nad oedd sefydliadau eraill chwaith yn cadw at y Safon, bod yr Awdurdod wedi derbyn ymateb drafft cadarnhaol er nad oedd ymateb terfynol a swyddogol y Comisiynydd i'r gŵyn wedi'i gyhoeddi eto. Nodwyd y diweddariad gan yr Aelodau, a chanmolwyd y Prif Weithredwr am y modd yr oedd wedi ymdrin â’r mater.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Mr GA Jones, **penderfynwyd** cymeradwyo’r Adroddiad Blynyddol ar Safonau’r Gymraeg 2025/26 i'w gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

**10. Adroddiad Blynyddol y Grŵp Amrywio Incwm 2025/26**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr Adroddiad Blynyddol y Grŵp Amrywio Incwm oedd yn amlinellu Aelodaeth y Grŵp, y materion a drafodwyd, yr awgrymiadau na chafodd eu datblygu, manylion Adroddiad perthnasol Archwilio Cymru, Camau Nesaf y Grŵp, Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru ar gyfer y Grŵp, a dadansoddiad o'r holl opsiynau a drafodwyd i arbed costau heblaw am gostau staff.

Dywedwyd bod y cylch gorchwyl yn nodi y byddai'r Awdurdod, bob 12 mis, yn cytuno a ddylid ymestyn y cylch gwaith am 12 mis arall. Cynigiwyd i ymestyn gwaith y Grŵp am 12 mis arall gan ehangu cylch gwaith y Grŵp i gynnwys yr holl faterion ariannol allai gyfrannu at gyflawni cyllideb gytbwys. Eglurwyd mai’r rheswm dros y bwriad i ehangu’r cylch gwaith oedd ei bod yn annhebygol y gallai'r Awdurdod gydbwyso'r gyllideb dim ond drwy arbedion costau heblaw am gostau staff, a hefyd ystyried casgliadau adroddiad Archwilio Cymru ar Gynaliadwyedd Ariannol.

Cafwyd trafodaeth i ddilyn ynghylch yr heriau sy'n wynebu'r Awdurdod gan gynnwys yr ansicrwydd yn y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru, newidiadau mewn Llywodraeth Leol, ansicrwydd ynghylch y dreth dwristiaeth arfaethedig, a’r costau cynyddol. Roedd yr Aelodau yn

cydnabod y manteision o ehangu Cwmpas y grŵp mewn ymgais i fynd i'r afael â sefyllfa ariannol heriol yr Awdurdod.

Ar gynnig y Cynghorydd C George, a eiliwyd gan y Cynghorydd D Clements, **penderfynwyd**;

i. Cytuno ar ymestyn y Grŵp am 12 mis arall.
ii. Adolygu cylch gwaith y Grŵp, a'i ehangu i gynnwys pob mater ariannol all gyfrannu at gyflawni cyllideb gytbwys.

**11. Eithrio'r cyhoedd**

Nodwyd, wrth drafod yr adroddiad canlynol, y gallai gwybodaeth oedd yn sensitif yn fasnachol gael ei rhannu, ac felly gofynnwyd am eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd SL Hancock, **penderfynwyd** y dylid eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu.

[Gadawodd y Cynghorydd D Clements y cyfarfod yr adeg hon.]

**12. Cofrestr Risg**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr y Diweddariad Blynyddol o'r Gofrestr Risg gan ddweud bod y Gofrestr Risg wedi cael ei hystyried yn fisol mewn cyfarfod o Dîm Rheoli'r Awdurdod ac yn chwarterol gan y Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y dogfennau canlynol:

- Y Gofrestr Risg
- Datganiad ar y Parodrwydd i Dderbyn Risg
- Adroddiad Sicrwydd Ail Linell
- Adroddiad yn amlinellu'r newidiadau a'r camau gweithredu yn y dyfodol.

**Nodwyd.**